PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Iau, 19 Gorffennaf 2018

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
K.V. Broom, D.M. Cundy (yn lle D.C. Evans), H.L. Davies, T.A.J. Davies, J.K. Howell, G.H. John, D. Jones (yn lle F. Akhtar), C. Jones, H.I. Jones (yn lle S.M. Allen), K. Madge, A.G. Morgan, J.G. Prosser a D.E. Williams

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorwyr D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
R. Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol;
N. Daniel, Pennaeth TGCh;
H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd
J. Morgan, Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;
R James, Swyddog Cynllunio Perfformiad a Busnes;
L. Evans, Swyddog Polisi a Phartneriaeth;
M.S. Davies, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00 am - 12.00 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, S. Allen a D.C. Evans.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
K. Madge	5 - Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin 2017-18	Ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG
Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)
Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2017/18
Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2017/18 ynghyd ag adroddiadau manwl ynghylch yr Amcanion Llesiant perthnasol sydd o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor, sef:

- Amcan Llesiant 5 - Mynd i'r afael â thlodi;
- Amcan Llesiant 14 - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru;

- Amcan Llesiant 15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.

Nodwyd ei bod yn ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Awdurdod gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiadau blaenorol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder bod tystiolaeth yn dangos bod Credyd Cynhwysol, yn hytrach na lleihau tlodi, yn cael effaith i'r gwrthwyneb mewn rhai ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin;
- Canmolwyd cynnydd Sir Gaerfyrddin o ran mynd i'r afael â thlodi ond y farn oedd bod angen rhagor o gymorth gan Lywodraeth Cymru;
- Cydnabuwyd bod diffyg mynediad i wasanaethau yn ffactor sy'n cyfrannu at dlodi mewn rhai ardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin, ac er mwyn mynd i'r afael â hynny byddai llyfrgelloedd teithiol yn cael eu haddasu'n 'hybiau' teithiol.
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r rhaglen LEADER yn dod i ben yn 2022, ond bod Llywodraeth y DU am sefydlu Rhaglen Ffyniant Economaidd;
- Cyfeiriwyd at y gwaith a wneir er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd drwy alluogi cymorth ac osgoi diwylliant o ddibynnu;
- Cytunodd y Rheolwr Datblygu Economaidd i ganfod faint o brentisiaid, graddedigion ac ati sydd wedi cael swydd o dan Brosiect Barod am Waith;
- Cytunodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel i roi manylion am y clybiau tanwydd;
- Cytunodd y swyddogion i ystyried y posibilrwydd o drefnu seminar i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol a Chynllun Gweithredu'r Awdurdod;
- Cytunodd y swyddogion i ystyried ffyrdd o sicrhau nad oedd gwasanaeth Hamperi Nadolig yr Awdurdod yn cael ei lethu oherwydd angen cynyddol;
- Cyfeiriwyd at y wybodaeth fanwl sydd ar wefan y Cyngor am y manteision o fod yn ddwyieithog;
- Nodwyd mai Sir Gaerfyrddin oedd un o'r nifer fach o awdurdodau yng Nghymru i adrodd canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru;
- Cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol i roi manylion y meysydd lle cafwyd gostyngiadau o £54m i'r gyllideb dros y 5 mlynedd diwethaf;
- Pwysleisiwyd pryder eto o ran cysylltiadau posibl rhwng swyddi gwag, straen a chyfraddau salwch a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai adroddiad arall ynghylch rheoli salwch yn cael ei gyflwyno maes o law;
- Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor na fyddai modd creu proffil cyfannol mewn un man ar gyfer pob preswylydd Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol agos, gan y byddai angen rhannu'r data a gedwir ar wahanol systemau a ddefnyddir gan sefydliadau partner eraill megis y Bwrdd Iechyd. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymchwilio i'r mater hwn. Roedd cyfleuster 'Fy Nghyfrif' ar wefan y Cyngor yn galluogi'r Awdurdod i lunio proffil cyfyngedig ond defnyddiol ar gyfer unrhyw unigolyn a gofrestrodd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2017/18.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2017-18

Gan gyfeirio at Gofnod 9 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2015, ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-18 a oedd yn manylu ar sut roedd y Cyngor wedi gweithredu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol a chyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Dyletswyddau Penodol i Gymru.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2017-18

Gan gyfeirio at gofnod 7 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2016, ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2016-17. Roedd yr Adroddiad wedi cael ei lunio er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Iaith Gymraeg 2017-18.

8. Y STRATEGAETH TRAWSNEWID DIGIDOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Trawsnewid Digidol ar gyfer 2018 yn unol â'r ymrwymiad a roddir yn Strategaeth Trawsnewid Digidol 2017-2020 [gweler Cofnod 9 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Mai 2017]. Roedd gan y Strategaeth bedwar maes Blaenoriaeth Allweddol:

- Gwasanaethau Cwsmeriaid Digidol
- Gweithlu Digidol
- Cymunedau a Busnesau Digidol
- Cydweithio Digidol

Ym mhob un o'r meysydd hyn, roedd nifer o brosiectau a chanlyniadau allweddol wedi'u cymeradwyo, a rhoddwyd manylion am y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf yn yr Adroddiad Blynyddol. Roedd cyflawniad y prosiectau hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Grŵp Llywio Trawsnewid Digidol ac roedd trosolwg ar y cynnydd yn cael ei roi i Fwrdd y Rhaglen TIC.
Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y cynllun i gael cebl tanddwr trawsatlantig a fyddai'n dod i'r lan yn Oxwich, Penrhyn Gŵyr, a gafodd ei grybwyll fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, dywedwyd y byddai hyn bellach yn rhan o Gytundeb Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Strategaeth Trawsnewid Digidol ar gyfer 2018.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2017-2018

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol a restrai weithgareddau rheoli'r trysorlys a ddigwyddodd yn ystod 2017-2018 yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017-2018 a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 22 Chwefror 2017.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r adroddiad.

10. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2017/18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2017/18.

Roedd y canlynol ymysg y materion a godwyd wrth ystyried yr adroddiad:

- Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y cynigion effeithlonrwydd o £580k yn Adran y Prif Weithredwr yn debygol o gael eu cyflawni yn 2018/19. Cafwyd ail drafodaeth ynghylch y gyfradd aros galwad ac roedd yn debygol y bydd gostyngiad yn nifer y galwadau.
- Ymatebodd y swyddogion i ymholiadau ynghylch swyddi heb gyllid a thargedau anghyraeddadwy o ran incwm.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

11. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 11 Hydref 2018.

12. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno".

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

13. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu.

14. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 14EG MEHEFIN 2018

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2018 yn gofnod cywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**